Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd

**Gwybodaeth am Gyfweliad**
**BSc (Anrh) Podiatreg**

Diolch am eich cais i astudio Podiatreg ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Fel rhan o'n proses ymgeisio, rydym yn gwahodd darpar ymgeiswyr i fynychu cyfweliad ar y campws.

Bydd y cyfweliad strwythuredig yn para tua 20 munud ac mae wedi'i gynllunio i asesu eich addasrwydd am yrfa fel Podiatregydd cofrestredig a bod eich gwerthoedd a'ch ymddygiadau'n cyd-fynd â chyflogaeth yn y GIG. Rydym yn chwilio am ymgeiswyr sydd â dealltwriaeth o rôl y Podiatregydd modern a gwir ddiddordeb ac ymroddiad i'r proffesiwn, y cyhoedd a'r GIG. Cynhelir y cyfweliad gan aelodau o dîm addysgu academaidd Podiatreg a Phodiatregwyr cofrestredig sy'n ymarfer yn y GIG ac sy'n ymwneud â hyfforddi myfyrwyr.

Bydd y cyfweliad yn cael ei gynnal ar gampws Llandaf o'r brifysgol ddydd Sadwrn 11 Chwefror 2023. Dylech anelu at gyrraedd y brifysgol erbyn 8.45 am. Byddwn yn anfon rhagor o wybodaeth atoch maes o law am yr amserlen ar gyfer y bore, y gweithgareddau sydd ar gael, a threfniadau ymarferol fel parcio. Byddwch yn rhydd i adael erbyn 1.00 pm.

Mae'n bwysig eich bod yn sicrhau bod eich hun ar gael ar y diwrnod hwn, gan nad ydym yn gallu cwblhau asesiad o'ch cais heb yr wybodaeth y byddwn yn ei chael yn ystod y cyfweliad. Byddem yn ddiolchgar petaech yn gallu cadarnhau cyn gynted â phosibl trwy eich Hwb UCAS y gallwch chi fynychu'r cyfweliad ar y dyddiad hwn. Mae'n bwysicaf eich bod yn ymateb cyn gynted â phosibl er mwyn osgoi oedi diangen wrth brosesu'ch cais trwy UCAS.

Os ydych yn dod ar draws unrhyw anawsterau, anfonwch e-bost at newstudent_interviews@cardiffmet.ac.uk neu gysylltu â Derbyniadau ar 029 2041 6010. Hefyd, os oes gennych unrhyw anghenion dysgu neu fynediad penodol, nodwch y rhain ymlaen llaw fel y gellir gwneud y trefniadau angenrheidiol.

Rwy'n edrych ymlaen at gwrdd â chi.

Yr eiddoch yn gywir

Dr Craig Gwynne PhD MSc BSc (Anrh) FHEA.
Uwch Ddarlithydd mewn Podiatreg a Phodiatregydd Cofrestredig â'r CPIG
Tiwtor Derbyn ar gyfer BSc (Anrh) Podiatreg
Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd